



Trydydd Adolygiad Ofcom o
Ddarlledu Gwasanaeth
Cyhoeddus
Cylch Gorchwyl

Dyddiad cyhoeddi:

27 Mai 2014

Gwybodaeth am y ddogfen hon

Mae'r papur hwn yn rhoi cylch gorchwyl trydydd adolygiad Ofcom o Ddarlledu Teledu Gwasanaeth Cyhoeddus ac mae'n datgan sut byddwn ni yn:

- darparu gwybodaeth am sut mae cynnwys gwasanaeth cyhoeddus wedi cael ei ddarparu yn y gorffennol; ac
- yn archwilio'r newidiadau yn y sector darlledu a'r sector cyfathrebu ehangach a'u heffaith bosibl ar y system Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus bresennol.

Mae'n egluro sut caiff yr adolygiad hwn ei gynnal mewn ffordd wahanol i ddau adolygiad blaenorol Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus oherwydd:

- mae'r newid o ddarlledu analog i ddarlledu digidol bellach wedi dod i ben, a dyma oedd yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer ein dau adolygiad cyntaf;
- mae Ofcom wedi penderfynu adnewyddu trwyddedau Sianel 3, 4 a 5 am 10 mlynedd arall; ac
- mae cylch gwaith Ofcom i gynnal yr adolygiad wedi newid o ganlyniad i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2010.

Oherwydd y ffactorau hyn rydym yn disgwyl y byddwn yn cwblhau'r adolygiad mewn llai o amser nag adolygiadau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus blaenorol.

Cynnwys

Adran

Tudalen

1 Trydydd Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2

Atodiad

Tudalen

1 Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: fframwaith statudol 10

Adran 1

Trydydd Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus

Y cyd-destun ar gyfer yr adolygiad hwn

- 1.1 Roedd ein hadolygiad cyntaf o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn edrych ar y blynyddoedd rhwng 1998 a 2002 ac roedd yr ail adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn edrych ar y blynyddoedd rhwng 2003 a 2007. Cynhaliwyd y naill adolygiad a'r llall mewn cyd-destun o ansicrwydd i'r system Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a oedd yn deillio o:
 - 1.1.1 y newid parhaus i ddarlledu digidol llawn, gan ddod â dewis llawer mwy o sianeli i'r holl wylwyr ac ansicrwydd ynghylch sut gallai ymddygiad defnyddwyr newid;

- 1.1.2 y cynnydd a ddeilliodd o hynny mewn rhannu cynulleidfaoedd a'r cynnydd mewn cystadleuaeth i'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus, gan nad y rhain oedd yr unig ddarlledwyr o fewn cyrraedd y rhan fwyaf o wylwyr erbyn hyn;
 - 1.1.3 cwestiynau ynghylch sut gallai rheoleiddio barhau i sicrhau cynnwys gwasanaeth cyhoeddus wrth ystyried y gostyngiad yng ngwerth rhai o'r manteision¹ roedd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn eu cael; a
 - 1.1.4 swyddogaeth ddechreuol y rhyngwyd yn arferion pobl wrth ddefnyddio'r cyfryngau a'r goblygiadau posibl i gyfryngau mwy traddodiadol a rhwydweithiau dosbarthu.
- 1.2 Mewn sawl ffordd mae cyflymder y newidiadau ers ein hadolygiad diwethaf wedi parhau yn ddi-baid. Er bod teledu yn dal yn rhyfeddol o wydn mae'r rhyngwyd nawr yn gyfrwng hollbresennol sy'n newid sut mae pob math o gynnwys cyfryngau'n cael ei ddarparu a'i ddefnyddio, gan gynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Dros y blynyddoedd diwethaf:
- 1.2.1 mae Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus wedi parhau i esblygu eu strategaethau dosbarthu, gan gynnwys drwy lwyfannau newydd fel YouView a Freeview Connect;
 - 1.2.2 mae defnyddwyr wedi estyn croeso cynnes i 'chwaraewyr' Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n cynnig gwasanaethau dal-i-fyny ar-lein ac ar ddyfeisiau sydd wedi'u cysylltu ac maen nhw ar gael ar ystod eang o lwyfannau teledu. Mae'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus hefyd wedi dechrau arbrofi gyda dosbarthu cynnwys Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus newydd ar-lein, naill ai cynt ac wedyn ei ddarlledu ar deledu neu yn hytrach na defnyddio teledu o gwbl;
 - 1.2.3 mae buddsoddiad sylweddol mewn band eang cyflym iawn wedi parhau, sy'n golygu y bydd ar gael i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr cyn bo hir. Mae band eang symudol hefyd ar gael yn ehangach ac mae ei gyflymder wedi gwella, sydd wedi cael ei sbarduno'n benodol drwy lansio gwasanaethau 4G. Mae'r datblygiadau hyn yn golygu bod defnyddio cynnwys clywedol ar-lein yn fwy cyffredin o lawer;
 - 1.2.4 mae gwylwyr yn gwylio mwy a mwy o fideos ar ddyfeisiau newydd, fel cyfrifiaduron llechen (nad oedd llawer iawn o bobl yn berchen arnyn nhw adeg ein hadolygiad diwethaf), ac mae cwestiynau ynghylch a yw pobl iau yn defnyddio teledu a'r cyfryngau'n gyffredinol mewn ffordd wahanol i'w rhieni;
 - 1.2.5 bu gostyngiad parhaus yn faint o amser mae pobl yn ei dreulio yn gwylio teledu llinol, er bod y gyfradd hon yn araf;
 - 1.2.6 mae'r dirwedd cyfryngau leol, ranbarthol ac yn y Gwledydd wedi parhau i esblygu. Mae llawer o sylw wedi cael ei roi i'r pwysau ar bapurau newydd lleol a rhanbarthol, ac mae gwefannau lleol iawn wedi dod yn fwy cyffredin ac mae trwyddedu gwasanaethau teledu lleol wedi dechrau, gyda'r sianeli cyntaf eisoes ar yr awyr;

¹ Fel mynediad wedi'i warantu i sbectrwm.

- 1.2.7 At ei gilydd mae gwariant ar gynnwys sy'n tarddu o'r DU ac sy'n cael ei ddangos ar draws y DU ar y sianeli Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus wedi disgyn mewn termau real ers 2007. Ar yr un pryd bu rhagor o fuddsoddi gan ddarlledwyr masnachol y tu hwnt i'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus mewn rhaglenni teledu yn y DU sy'n cynnwys genres fel y celfyddydau, drama a chomedi. Er gwaethaf gostyngiad mewn gwariant ar gynnwys gwreiddiol o'r DU gan y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn gyffredinol, mae'r gyfran o'r cyfanswm sydd wedi'i wario gan Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ar raglenni rhwydwaith y tu allan i Lundain ac yn y Gwledydd wedi cynyddu. Fodd bynnag, mae'r gwariant ar raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn benodol ym mhob Gwlad ac ar gyfer pob Gwlad (hy ddim i'w dangos ar draws y DU) wedi disgyn dros yr un cyfnod; a
- 1.2.8 mae cwmnïau newydd fel Google, Amazon a Netflix wedi dechrau arbrofi gyda buddsoddi mewn cynnwys gwreiddiol.
- 1.3 Mae cyflymder y newidiadau hyn yn golygu bod llawer o ansicrwydd ynghylch sut bydd y sectorau cynnwys a thechnoleg yn datblygu yn y dyfodol. Fodd bynnag, rhaid edrych ar y newidiadau hyn yng nghyd-destun nifer o ddatblygiadau eraill sy'n golygu, yn groes i'r graen rywsut, bod yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal mewn amgylchiadau gyda rhywfaint mwy o sefydlogrwydd i Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus na'n dau adolygiad blaenorol:
- 1.3.1 Mae newid i'r digidol wedi dod i ben ac mae'n ymddangos bod y gyfran sy'n gwyllo gwasanaethau teledu sy'n cael eu darparu gan y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus, sydd wedi disgyn yn raddol gan fod mwy o sianeli ar gael, bellach yn fwy sefydlog wrth ystyried eu sianeli portffolio².
- 1.3.2 Mae defnyddio teledu llinol yn dal i gynrychioli tua 90% o'r holl wyllo. Er bod ffyrdd eraill o wyllo wedi dod yn fwy poblogaidd maen nhw'n dal yn fach wrth gymharu – ac maen nhw wedi cael llai o effaith ar wyllo llinol nag yr oedd nifer yn ei ddisgwyl yn wreiddiol.
- 1.3.3 Mae'r farchnad hysbysebion teledu wedi adfer, sydd wedi arwain at lai o bwysau cylchol ar ddarlledwyr masnachol. Ar hyn o bryd mae hysbysebu ar deledu'n ymddangos yn fwy gwydn i ddulliau eraill o hysbysebu, yn enwedig ar-lein, nag a ddychmygwyd yn wreiddiol (a dweud y gwir mae ei gyfran o gyfanswm hysbysebu wedi cynyddu ers 2007). Fodd bynnag mae hysbysebu ar-lein yn dal i dyfu'n gyflym.
- 1.3.4 Mae Ofcom wedi penderfynu adnewyddu trwyddedau Sianel 3, 4 a 5 am ddeng mlynedd arall, ar yr amod eu bod yn cyflawni eu cylchoedd gwaith a'u dyletswyddau gwasanaeth cyhoeddus dros y tymor canolig. Mae gan y BBC setliad ffi'r drwydded tan 2016/17 (er mae'n debyg y bydd y broses i Adnewyddu'r Siarter yn dechrau cyn bo hir).
- 1.4 Er mwyn cael ffocws i'r adolygiad hwn, rydym felly wedi gwneud nifer o dybiaethau pwysig wrth ystyried cwmpas manwl yr adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus sydd ar y gweill:

² Yn ogystal â gwasanaethau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus fel ITV, Channel 4 a Channel 5, mae'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus hefyd yn cynnig sianeli eraill ar sail gwbl fasnachol, fel ITV2, E4 a 5USA.

- 1.4.1 ***Golwg tymor hir:*** gyda'r trwyddedau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus newydd ar fin dod i rym cyn bo hir ac ar waith am y 10 mlynedd nesaf, mae'r adolygiad hwn yn gyfle i edrych ymlaen at y cyfleoedd a'r sialensiau allweddol i ddarparu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus dros y degawd nesaf, gan edrych ar sut mae'r system drwyddi draw yn gweithredu er budd dinasyddion a defnyddwyr yn y DU.
- 1.4.2 ***Ar hyn o bryd mae'r sector darlledu drwyddo draw yn gweithredu'n dda:*** mae gennym sector darlledu cryf gyda'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus a darparwyr sianeli masnachol yn ategu ei gilydd a gyda sector cynhyrchu annibynnol cryf, er ein bod yn cydnabod bod rhai yn dadlau nad yw hwn yn ddarlun unfurf ym mhob rhan o'r DU.
- 1.4.3 ***Ymysg cyfanswm y gynulleidfa deledu drwyddi draw, mae'r awydd am gynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn gryf yn gyffredinol:*** er byddwn yn profi (drwy ymchwil sylfaenol newydd) safbwyntiau amrywiol posibl cenedlaethau gwahanol i ddeall y tebygolrwydd y bydd hyn yn newid yn y dyfodol.
- 1.4.4 ***Rhaid gwneud rhagor o waith dadansoddi ar y potensial i arloesedd sy'n tarfu ddadsefydlogi'r system bresennol:*** er bod gwyllo llinol yn dal yn wydn iawn, mae'r potensial i darfu yn dal i fodoli gan gynnwys mwy o newid i ddefnyddio heb fod yn llinol. Mae angen i ni barhau i fonitro a deall y potensial am hyn a newidiadau strwythurol sylweddol eraill.
- 1.5 Yn ystod ein gwaith, os byddwn yn cael unrhyw dystiolaeth sy'n herio unrhyw un o'r tybiaethau hyn, byddwn yn ystyried goblygiadau hynny i'r adolygiad.

Ffocws a chwmpas yr adolygiad hwn

- 1.6 Wrth ystyried y cyd-destun uchod ac er mwyn cael ffocws i'n gwaith, rydym wedi datblygu hypothesis canolog i'r adolygiad hwn ei ystyried:

“Mae sefydliadau a'r system Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn dal i ddarparu ar gyfer gwylwyr fel rhan o ecoleg darlledu gymysg lwyddiannus sy'n darparu cynnwys o ansawdd uchel yn y DU, ond mae angen monitro cyflymder yr arloesi a ffynonellau o risg a bregusrwydd...”

...Y brif sialens dros y blynyddoedd nesaf fydd addasu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus a sut caiff ei ddsbarthu yng nghyd-destun sector sianeli masnachol sy'n fwy deinamig, gan sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn ddeniadol, yn berthnasol ac yn angenrheidiol ac yn hawdd i wylwyr gael gafael arno a dod o hyd iddo er mwyn iddo allu adlewyrchu a manteisio ar gymdeithas sydd wedi'i chysylltu'n well...

...Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cynyddu gwerth cymdeithasol ac economaidd cyllid a darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus.”

- 1.7 Yn benodol, bydd angen i'r adolygiad brofi a fydd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn aros yn wydn i newidiadau strwythurol sy'n effeithio ar arferion gwyllo a hysbysebu ar deledu. Bydd y meysydd i'w hystyried yn cynnwys:
- 1.7.1 y potensial i gwmnïau newydd amharu ar y model cyfredol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, er enghraifft drwy sbarduno mwy o symud i ddefnyddio heb fod yn llinol;
 - 1.7.2 effaith technoleg – fel recordwyr fideo personol (PVRs), gwasanaethau newydd ac sydd yn yr arfaeth ym maes fideo ar alwad (VOD) a dyfeisiau fel cyfrifiaduron llechen a ffonau clyfar – ar arferion gwyllo;
 - 1.7.3 cyfleoedd ac effaith bosibl marchnadoedd technoleg a chynnwys sy'n dod yn fwy byd-eang;
 - 1.7.4 swyddogaeth hysbysebu ar y teledu ynghyd â hysbysebu ar lwyfannau eraill yn y cymysgedd marchnata; a
 - 1.7.5 effaith cyfryngwyr newydd sy'n rheoli llwyfannau, gan gynnwys eu rheolaeth o gysylltiadau uniongyrchol gwerthfawr o bosibl gyda chynulleidfaoedd.
- 1.8 Ffocws craidd yr adolygiad hwn fydd ar wasanaethau teledu'r BBC (gan gynnwys y gwasanaeth Gaeleg, BBC Alba), gwasanaethau Sianel 3 (ITV, STV ac UTV), Channel 4, Channel 5 a gwasanaeth Cymraeg S4C.
- 1.9 Roedd Deddf yr Economi Ddigidol 2010 wedi gwneud rhai newidiadau i ddyletswyddau Ofcom wrth gynnal adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Felly byddwn yn cynnal adolygiad o 'wasanaethau cyfryngau' ehangach yn ogystal ag edrych ar y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus, a fydd yn ceisio rhoi cyd-destun pwysig ar gyfer ffocws craidd ein hadolygiad. Bydd ein hadolygiad o wasanaethau cyfryngau'n ystyried y cyfraniad at ddarparu amcanion gwasanaethau cyhoeddus y sianeli portffolio a gwasanaethau dal i fyny heb fod yn llinol sy'n cael eu cynnig gan y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus, sianeli teledu eraill sy'n cael eu darparu gan ddarlledwyr masnachol, gorsafoedd radio, a gwasanaethau fel gwefannau a chwaraewyr ar alwad.
- 1.10 Bydd ein gwaith ar y BBC yn canolbwyntio ar ei swyddogaeth wrth gyflawni dibenion ac amcanion Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn gyffredinol, sefydlu cyfraniad ac effaith y BBC fel rhan o'r system Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Ni fyddwn yn ceisio gofyn nac ateb cwestiynau mewn perthynas â'r BBC sy'n faterion yn y broses Adolygu'r Siarter sydd yn yr arfaeth.
- 1.11 Roedd Deddf yr Economi Ddigidol 2010 yn cyflwyno dyletswyddau newydd ar gyfer Corfforaeth Channel 4 ("C4C") mewn perthynas â chynnwys cyfryngau a gofyniad i Ofcom gynnal adolygiad rheolaidd o sut mae C4C yn cyflawni'r dyletswyddau hyn. Byddwn yn gwneud hynny ochr yn ochr â'n hadolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Rydym hefyd yn cynnig canolbwyntio ar C4C wrth i ni ystyried sialensiau strategol.
- 1.12 Bydd ein gwaith yn cael ei rannu i'r meysydd canlynol:
- 1.12.1 **Cofnodi data hanesyddol:** adolygiad cynhwysfawr o allbwn, buddsoddiad, defnydd ac agweddau gwylwyr yn y gorffennol. Bydd hyn yn cynnwys darparu a defnyddio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus ar draws Gwledydd

Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd ein hadolygiad o ddarparu yn defnyddio data sydd wedi cael ei gasglu o Adroddiadau Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom, gyda data ychwanegol penodol yn ôl y galw.

- 1.12.2 **Cyd-destun y farchnad:** amlinelliad o'r patrymau a'r digwyddiadau allweddol sydd wedi digwydd dros y cyfnod sy'n cael ei adolygu, golwg gyffredinol fanwl o'r farchnad bresennol ar draws y DU a'r hyn sy'n debyg o sbarduno newid yn y dyfodol, a nifer o ragdybiaethau ar gyfer sut gallai'r farchnad ddatblygu yn y dyfodol er mwyn asesu'r ffordd orau o gynnal a chryfhau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.
- 1.12.3 **Themâu polisi allweddol:** asesiad manylach o nifer fach o feysydd polisi allweddol a'u goblygiadau i'r dyfodol. Yn ogystal â chyflawni ein dyletswyddau i gynnal adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, mae'r themâu allweddol arfaethedig a'r sialensiau strategol y cyfeirir atynt isod yn feysydd sy'n ganolog i ddyletswyddau cyffredinol Ofcom i sicrhau ystod eang o wasanaethau teledu a radio o ansawdd uchel ac apêl eang, a chynnal lluosogrwydd mewn darlledu. Mae'n debyg y bydd y themâu allweddol yn cynnwys:
- i) Swyddogaeth darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gefnogi'r economi greadigol ehangach yn y DU;
 - ii) Swyddogaeth y sector annibynnol a datblygiadau mewn comisiynu teledu a digidol (ar-lein yn unig);
 - iii) Y newidiadau mewn darparu a defnyddio rhaglenni mewn genres allweddol, fel newyddion y DU, Cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a rhaglenni plant.
- 1.12.4 **Sialensiau strategol:** Byddwn yn canolbwyntio'n fanwl ar dair sialens strategol allweddol:
- a. **Cadw Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i gynulleidfaoedd:** Mae'r twf mewn defnyddio digidol yn cynnig cyfleoedd a bygythiadau i gadw cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn berthnasol i gynulleidfaoedd. Mae arnom eisiau deall, gan gynnwys drwy ymchwil sylfaenol newydd ar draws y DU gan gynnwys pob un o'r Gwledydd, sut mae disgwyliadau cynulleidfaoedd yn newid mewn perthynas â chynhyrchu a darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus.
 - b. **Dosbarthu: mynediad llwyfan, argaeledd a sut mae ei ganfod.** Wrth i wylwyr ddefnyddio gwasanaethau fideo ar lwyfannau a dyfeisiau newydd, sut gallwn ni sicrhau bod y cynnwys sy'n cael ei wneud gan Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn dal i gyflawni o ran cyrhaeddiad ac effaith i sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol parhaus? Allwn ni sicrhau bod gwasanaethau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn gallu defnyddio'r llwyfannau sydd eu hangen i gyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl? Wrth i'r dewis o wasanaethau gynyddu mae'r ffordd o ganfod cynnwys yn dod yn bwysicach – ac yn fwy soffistigedig – allwn ni sicrhau bod gwasanaethau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn dal yn hawdd eu canfod?

- c. **Corfforaeth Channel 4:** Mae trwydded Channel 4 newydd gael ei hadnewyddu am ddeng mlynedd arall ac mae gan C4C set gymharol newydd o ddyletswyddau cynnwys cyfryngau. Fodd bynnag, mae C4C yn wynebu mwy a mwy o gystadleuaeth gan gwmnïau cyfryngau byd-eang mawr sydd â llawer o gyllid ac amrywiaeth o ddarparwyr ar-lein arloesol, sydd yn cynnig dewisiadau deniadol i'r cynulleidfaoedd iau mae C4C yn ceisio apelio iddynt. A fydd C4C yn ddigon o faint i allu cystadlu'n llwyddiannus a chadw ei chynulleidfa iau? A oes ffyrdd y gellid cryfhau C4C i gefnogi cyflawni ei dyletswyddau wrth i batrymau gwyllo newid?

Meysydd nad ydym yn eu hystyried fel gwaith ychwanegol sylweddol ar hyn o bryd

- 1.13 Mae nifer o feysydd hefyd lle mae Ofcom eisoes wedi cynnal dadansoddiad manwl yn ein hadolygiadau blaenorol o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a lle nad ydym yn bwriadu gwneud gwaith ychwanegol sylweddol ar hyn o bryd. Yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys:
- 1.13.1 **Y rhesymeg economaidd dros ymyrryd:** pan fydd ffactorau allanol arwyddocaol yn parhau yn y byd darlledu sy'n golygu na fydd dewisiadau preifat efallai'n arwain at y canlyniad gorau.
- 1.13.2 **Dibenion ac amcanion Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus:** pan na fyddwn yn rhagweld cynnal adolygiad cyfanwerthu ond gallwn ystyried goblygiadau ein gwaith efallai.
- 1.13.3 **Manteision ac anfanteision cyllid cystadlu:** pan rydym wedi rhoi manylion ein safbwyntiau yn y gorffennol ynghylch rhinweddau cymharol darparu sefydliadol yn hytrach na chyllid cystadlu.
- 1.13.4 **Y cymysgedd priodol o strwythurau sefydliadol ar gyfer darparu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus:** nid ydym yn bwriadu rhoi sylw manwl i a oes cymysgedd gwell yn bosibl o sefydliadau i ddarparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol; nid ydym chwaith yn bwriadu edrych ar effaith bosibl rhagor o ddatganoli yn yr Alban, Cymru na Gogledd Iwerddon.
- 1.14 Wrth gwrs, gallwn ailedrych ar unrhyw un o'r meysydd hyn fel rhan o'r adolygiad os daw'n amlwg yn ystod ein gwaith ei bod hi'n bwysig gwneud hynny.

Dull Gweithredu

Amserlen

- 1.15 Cynhelir yr adolygiad hwn dros gyfnod byrrach na'r ddau adolygiad blaenorol. Yn syth ar ôl cyhoeddi'r ddogfen hon, byddwn yn cynnal dadansoddiad cychwynnol, gan gynnwys ymchwil i'r farchnad a chynulleidfa, ac yn ystyried unrhyw sylwadau cychwynnol gan randdeiliaid. Byddwn wedyn yn cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus manwl cyn cyhoeddi datganiad terfynol y flwyddyn nesaf. Dyma'r amserlen ddisgwyliedig:

- Mis Mai i'r hydref – dadansoddiad cychwynnol

- Hydref i'r gwanwyn – ymgynghoriad cyhoeddus
- Diwedd y gwanwyn – dadansoddiad terfynol
- Haf 2015 – cyhoeddi datganiad terfynol

Y cyfnod sy'n cael ei adolygu

1.16 Er mwyn ateb y cwestiynau a nodir uchod, bydd yr adolygiad yn ystyried y cyfnod ers yr adolygiad diwethaf (2008 i 2013 yn gynhwysol)³ yn ogystal ag yn ystyried sut gallai'r farchnad ddatblygu dros y pum mlynedd nesaf a thu hwnt.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

- 1.17 Fel rhan o'r adolygiad byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus manwl er mwyn caniatáu i'r holl bartïon sydd â diddordeb gyflwyno gwybodaeth a nodi eu safbwyntiau a'u barn ar y materion allweddol. Rydym yn awyddus i gwrdd â rhanddeiliaid drwy gydol y broses i glywed eu safbwyntiau, gan gynnwys y rheini yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon lle byddwn yn cynnal digwyddiadau ar wahân.
- 1.18 Rydym hefyd yn rhagweld y bydd angen data ychwanegol i gyfrannu at yr adolygiad a byddwn yn ysgrifennu at rhanddeiliaid cyn bo hir yn nodi'r wybodaeth rydym yn gofyn amdani.

Pwynt cyswllt

- 1.19 Byddem yn falch o gael sylwadau ynghylch y Cylch Gorchwyl hwn a chwmpas a chynnwys yr adolygiad hwn. Er mwyn rhoi eich barn, gofyn cwestiynau neu holi am ragor o wybodaeth am yr adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, anfonwch e-bost at PSBreview@ofcom.org.uk, erbyn diwedd mis Mehefin 2014 neu cysylltwch â Gareth Barr ar 020 7981 3362.

³ Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn ystyried 2008 i 2012 yn gynhwysol a byddwn yn ystyried 2013 i sicrhau bod ein dadansoddiad yn ddiweddar. Bydd ein hadolygiad o sut mae C4C yn cyflawni ei dyletswyddau cynnwys y cyfryngau yn berthnasol i'r cyfnod rhwng mis Mehefin 2010 (pan gawsant eu cyflwyno) a 2013.

Atodiad 1

Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: fframwaith statudol

Adran 264 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003: Bydd OFCOM yn adrodd ar gyflawni'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus

- (1) Bydd yn ddyletswydd ar OFCOM--
 - (a) cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dechrau gyda chychwyn yr adran hon, a
 - (b) cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl diwedd pob cyfnod dilynol o'r fath fel sy'n cael ei ddewis gan OFCOM at ddibenion yr adran hon,
i ddiwallu, ar gyfer y cyfnod hwnnw, dyletswyddau adolygu ac adrodd is-adran (3).
- (2) Rhaid i'r cyfnod a fydd yn cael ei ddewis gan OFCOM at ddibenion is-adran (1)(b) fod yn gyfnod o ddim mwy na phum mlynedd gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod blaenorol y mae OFCOM wedi diwallu'r dyletswyddau adolygu ac adrodd hynny ar ei gyfer.
- (3) Dyma'r dyletswyddau adolygu ac adrodd ar gyfer cyfnod--
 - (a) dyletswydd i gynnal adolygiad i'r graddau y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi, yn ystod y cyfnod hwnnw, darparu gwasanaethau teledu perthnasol sydd (wrth eu hystyried i gyd gyda'i gilydd dros y cyfnod i gyd) yn cyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig;
a
 - (b) dyletswydd, gyda golwg ar gynnal a chryfhau ansawdd darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig, i baratoi adroddiad ar y materion sydd wedi dod i'r amlwg yn yr adolygiad.
- (4) Dyma ddibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig--
 - (a) darparu gwasanaethau teledu perthnasol sy'n sicrhau bod rhaglenni sy'n ymdrin ag ystod eang o bynciau ar gael i'w gwyllo;
 - (b) darparu gwasanaethau teledu perthnasol mewn ffordd sydd (wrth ystyried y diwrnodau y cânt eu dangos a'r adegau o'r dydd cânt eu dangos) yn debyg o ddiwallu anghenion a bodloni diddordebau cynifer o gynulleidfaoedd gwahanol ag sy'n ymarferol;
 - (c) darparu gwasanaethau teledu perthnasol sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd ac wrth ystyried yr un materion) â chydbwysedd priodol, o ran eu natur a'u pynciau, ar gyfer diwallu anghenion a bodloni diddordebau'r cynulleidfaoedd sydd ar gael; a
 - (d) darparu gwasanaethau teledu perthnasol sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) yn cynnal safonau cyffredinol uchel o ran y rhaglenni sy'n cael eu cynnwys, ac, yn benodol mewn perthynas â--
 - (i) cynnwys y rhaglenni;
 - (ii) ansawdd gwneud y rhaglenni; a
 - (iii) y sgiliau proffesiynol a'r integriti golygyddol a ddefnyddiwyd wrth wneud y rhaglenni.

(5) Wrth--

- (a) pennu'r graddau y mae unrhyw rai o ddibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn cael eu cyflawni, a
- (b) adolygu ac adrodd ar y mater hwnnw,

rhaid i OFCOM roi sylw i ba mor ddymunol yw cyflawni'r dibenion hynny mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag is-adran (6).

(6) Dull o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig sy'n cyd-fynd â'r is-adran hon os yw'n sicrhau--

- (a) bod y gwasanaethau teledu perthnasol (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) yn creu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer dosbarthu gwybodaeth a darparu addysg ac adloniant;
- (b) bod gweithgarwch diwylliannol ac amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn cael eu hadlewyrchu, eu cefnogi a'u hysgogi drwy'r gynrychiolaeth yn y gwasanaethau hynny (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ddrama, comedi a cherddoriaeth, drwy gynnwys ffilmiau yn y gwasanaethau hynny a drwy'r ffordd o ymdrin â chelfyddydau gweledol a pherfformio eraill;
- (c) bod y gwasanaethau hynny (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) yn darparu, i'r graddau sy'n briodol ar gyfer hwyluso dealltwriaeth ddinesig a dadl deg sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch newyddion a materion cyfoes, sylw cynhwysfawr ac awdurdodol i newyddion a materion cyfoes y Deyrnas Unedig, rhannau ohoni ac ym mhedwar ban byd;
- (d) bod y gwasanaethau hynny (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) yn bodloni ystod eang o ddiddordebau chwaraeon a diddordebau hamdden eraill;
- (e) bod y gwasanaethau hynny (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) yn cynnwys yr hyn sy'n ymddangos i OFCOM fel nifer ac amrywiaeth addas o raglenni ar faterion addysgiadol, rhaglenni o natur addysgiadol a rhaglenni eraill sydd â gwerth addysgiadol;
- (f) bod y gwasanaethau hynny (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) yn cynnwys yr hyn sy'n ymddangos i OFCOM fel nifer ac amrywiaeth addas o raglenni sy'n delio â phob un o'r canlynol, gwyddoniaeth, crefydd a chredoau eraill, materion cymdeithasol, materion o arwyddocâd neu ddiddordeb rhyngwladol a materion o ddiddordeb arbenigol;
- (g) bod y rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaethau hynny sy'n delio â chrefydd â chredoau eraill yn cynnwys-
 - (i) rhaglenni sy'n darparu newyddion a gwybodaeth arall am grefyddau gwahanol a chredoau eraill;
 - (ii) rhaglenni am hanes crefyddau gwahanol a chredoau eraill; a
 - (iii) rhaglenni sy'n dangos gweithredoedd o addoli a seremonïau ac arferion eraill (gan gynnwys rhai yn dangos gweithredoedd o addoli neu seremonïau eraill yn eu cyfanrwydd);
- (h) bod y gwasanaethau hynny (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) yn cynnwys yr hyn sy'n ymddangos i OFCOM fel nifer ac amrywiaeth addas o raglenni gwreiddiol ac o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc;
- (i) bod y gwasanaethau hynny (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) yn cynnwys yr hyn sy'n ymddangos i OFCOM fel nifer ddigonol o raglenni sy'n adlewyrchu bywydau

a phryderon cymunedau a buddiannau a thraddodiadau diwylliannol gwahanol yn y Deyrnas Unedig, ac yn lleol mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig;

- (j) bod y gwasanaethau hynny (wrth eu hystyried gyda'i gilydd), cyn belled â'u bod yn cynnwys rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys yr hyn sy'n ymddangos i OFCOM i fod yn amrywiaeth ac yn gyfran briodol o raglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i ardal yr M25.

(7) Wrth gyflawni adolygiad o dan yr adran hon, rhaid i OFCOM ystyried--

(a) y costau i'r rheini sy'n darparu gwasanaethau teledu perthnasol wrth gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag is-adran (6); a

(b) y ffynonellau o incwm sydd ar gael i bob un ohonynt ar gyfer diwallu'r costau hynny.

(8) Rhaid i bob adroddiad o dan yr adran hon--

(a) pennu a rhoi sylwadau ar ba newidiadau bynnag y mae OFCOM wedi'u gweld, a fu yn ystod y cyfnod y mae'r adolygiad yn berthnasol iddo, i'r graddau y mae dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu diwallu;

(b) pennu a rhoi sylwadau ar ba newidiadau bynnag y mae OFCOM wedi'u gweld, yn ystod y cyfnod hwnnw, yn y ffordd y mae'r dibenion hynny'n cael eu cyflawni;

(c) nodi canfyddiadau OFCOM ynghylch eu hystyriaeth o'r materion a nodir yn is-adran (7) ac unrhyw gasgliadau mae wedi'u llunio mewn perthynas â'r canfyddiadau hynny; a

(d) nodi casgliadau OFCOM ar gyflwr presennol darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

(9) Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran hon, rhaid i OFCOM roi sylw penodol i--

(a) pob datganiad o raglen neu bolisi gwasanaeth sydd wedi cael ei wneud drwy rinwedd y Bennod hon, gan ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus, neu sy'n cael ei drin felly fel datganiad;

(b) pob datganiad cyfatebol o bolisi sydd wedi'i wneud gan y BBC yn unol â Siarter a Chytundeb y BBC; a

(c) materion sydd wedi codi ar adegau cyn i'r adran hon ddod i rym fel y mae OFCOM yn credu sy'n bwysig.

(10) Rhaid i bob adroddiad sy'n cael ei baratoi gan OFCOM o dan yr adran hon gael ei gyhoeddi ganddo--

(a) cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl gorffen ei baratoi; a

(b) mewn ffordd mae'n ystyried sy'n briodol.

(11) Mae'r canlynol yn wasanaethau teledu perthnasol at ddibenion yr adran hon--

(a) y gwasanaethau darlledu teledu a ddarperir gan y BBC;

(b) y gwasanaethau rhaglenni teledu sy'n wasanaethau cyhoeddus yr Awdurdod Cymraeg (yn ystyr adran 207);

(c) pob gwasanaeth Sianel 3;

(d) Channel 4;

(e) Channel 5;

(f) y gwasanaeth teledestun cyhoeddus.

(12) Mae'r canlynol yn ddarllidwyr gwasanaeth cyhoeddus at ddibenion yr adran hon--

- (a) y BBC;
- (b) yr Awdurdod Cymraeg;
- (c) darparwyr y sianeli gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig; a
- (d) y darparwr teledestun cyhoeddus.

(13) Yn yr adran hon--

mae "cred" yn golygu cred ar y cyd mewn set gyfundrefnol o egwyddorion moesegol neu athronyddol, neu ymlyniad arall iddynt, neu athrawiaethau cyfriniol neu drosgynnol; a

mae "drama" yn cynnwys drama gyfoes ac fel arall mewn amrywiaeth o fformatau gwahanol.

Adran 264A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003: adroddiadau OFCOM: adolygiad ehangach a dyletswyddau adrodd⁴

(1) Wrth gynnal adolygiad o dan adran 264 ar gyfer cyfnod, rhaid i OFCOM hefyd gynnal adolygiad o i ba raddau y mae deunyddiau sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaethau cyfryngau yn ystod y cyfnod hwnnw (wrth eu hystyried gyda'i gilydd dros y cyfnod i gyd) wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion gwasanaeth cyhoeddus.

(2) Rhaid i bob adroddiad o dan adran 264--

- (a) gynnwys adroddiad ar y materion sydd wedi cael eu canfod ar yr adolygiad o dan yr adran hon,
- (b) pennu a rhoi sylwadau ar ba newidiadau bynnag y mae OFCOM wedi'u gweld, a fu yn ystod y cyfnod y mae'r adolygiad yn berthnasol iddo, i'r graddau y mae'r amcanion gwasanaeth cyhoeddus wedi cael eu diwallu,
- (c) pennu a rhoi sylwadau ar ba newidiadau bynnag y mae OFCOM wedi'u gweld, a fu yn ystod y cyfnod hwnnw, yn y ffordd y mae'r amcanion hynny'n cael eu cyflawni; a
- (d) pennu casgliadau OFCOM o gyflwr presennol y deunyddiau sydd wedi cael eu cynnwys mewn gwasanaethau cyfryngau.

(3) "Yr amcanion gwasanaeth cyhoeddus" yw'r amcanion sydd wedi cael eu nodi ym mharagraffau (b) i (j) adran 264(6) (fel y'i diwygiwyd gan is-adran (4)).

(4) Mae paragraffau (b) i (j) adran 264(6) mewn grym at ddibenion is-adran (3) fel petai--

- (a) cyfeiriadau at y gwasanaethau teledu perthnasol yn cyfeirio at wasanaethau cyfryngau, a
- (b) cyfeiriadau at raglenni yn cyfeirio at ddeunyddiau sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau o'r fath.

(5) Yn yr adran hon--

Nid yw "deunyddiau" yn cynnwys hysbysebion;

Mae "gwasanaethau cyfryngau" yn golygu unrhyw rai o'r gwasanaethau canlynol sydd ar gael i aelodau o'r cyhoedd mewn rhan o'r Deyrnas Unedig neu'r wlad i gyd--

⁴ Cafodd yr adran hon ei chynnwys yn y Ddeddf Cyfathrebiadau drwy adran 2 Deddf yr Economi Ddigidol 2010.

- (a) gwasanaethau teledu a radio,
 - (b) gwasanaethau rhaglenni ar alwad, a
 - (a) gwasanaethau eraill sy'n cael eu darparu drwy'r rhyngwyd pan fydd rhywun sydd â rheolaeth olygyddol dros y deunyddiau sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth.
- (6) Mae'r gwasanaethau sydd at ddibenion yr adran hon yn cael eu hystyried fel gwasanaethau sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd yn cynnwys unrhyw wasanaeth sydd--
- (a) ar gael i aelodau o'r cyhoedd ei dderbyn (yn ystyr adran 361); neu
 - (b) ar gael i aelodau o'r cyhoedd ei ddefnyddio (yn ystyr adran 368R(4)).

Adran 198A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003: Swyddogaethau C4C mewn perthynas â chynnwys cyfryngau⁵

- (1) Rhaid i C4C gymryd rhan mewn--
- (a) gwneud ystod eang o gynnwys cyfryngau perthnasol o ansawdd uchel sydd, wrth eu hystyried gyda'i gilydd, yn apelio at chwaeth a diddordebau cymdeithas sy'n amrywiol yn ddiwylliannol,
 - (b) gwneud ffilmiau o ansawdd uchel sydd i'w dangos i'r cyhoedd yn sinemâu'r Deyrnas Unedig, a
 - (d) darlledu a dosbarthu cynnwys a ffilmiau o'r fath.
- (2) Yn benodol rhaid i C4C gymryd rhan mewn--
- (a) gwneud cynnwys cyfryngau perthnasol sy'n cynnwys newyddion a materion cyfoes,
 - (b) gwneud cynnwys cyfryngau perthnasol sy'n apelio at chwaeth a diddordebau plant hŷn ac oedolion ifanc,
 - (c) darlledu neu ddosbarthu drwy rwydweithiau cyfathrebu electronig ffilmiau sy'n adlewyrchu gweithgarwch diwylliannol yn y Deyrnas Unedig (gan gynnwys ffilmiau trydydd parti), a
 - (d) darlledu neu ddosbarthu cynnwys cyfryngau perthnasol drwy amrywiaeth o fathau gwahanol o rwydweithiau cyfathrebu electronig.
- (3) Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan is-adrannau (1) a (2) rhaid i C4C--
- (a) hybu mesurau sydd wedi'u bwriadu i sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth a chymhelliant i gymryd rhan mewn cymdeithas mewn amrywiaeth o ffyrdd, a
 - (b) cyfrannu at gyflawni'r amcanion gwasanaeth cyhoeddus (fel sydd wedi'u diffinio yn adran 264A).
- (4) Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan is-adrannau (1) i (3) rhaid i C4C--
- (a) cefnogi datblygu pobl sydd â thalent greadigol, yn benodol--
 - (i) pobl ar ddechrau eu gyrfaoedd mewn cynnwys cyfryngau perthnasol neu ffilmiau, a
 - (ii) pobl sy'n ymwneud â gwneud cynnwys a ffilmiau arloesol,

⁵ Cafodd yr adran hon ei chynnwys yn y Ddeddf Cyfathrebiadau drwy adran 22 Deddf yr Economi Ddigidol 2010.

- (b) cefnogi ac ysgogi dadl ar sail gwybodaeth ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys drwy ddarparu mynediad at wybodaeth a safbwyntiau o bob rhan o'r byd a herio safbwyntiau sydd wedi ennill eu plwyf,
 - (c) hybu barn wahanol a safbwyntiau newydd, a
 - (d) darparu mynediad at ddeunyddiau sydd wedi'u bwriadu i ysbrydoli pobl i wneud newidiadau yn eu bywydau.
- (5) Wrth gyflawni'r dyletswyddau hynny rhaid i C4C ystyried pa mor ddymunol yw'r canlynol--
- (a) gweithio gyda sefydliadau diwylliannol,
 - (b) hybu arloesedd yn y ffordd mae cynnwys cyfryngau perthnasol yn cael ei ddarlledu neu ei ddsbarthu, a
 - (c) hybu mynediad i wasanaethau sy'n cael eu darparu ar ffurf ddigidol ac ymwybyddiaeth ohonynt.
- (6) Yn yr adran hon--
- mae "cymryd rhan" yn cynnwys buddsoddi neu gaffael fel arall;
- mae "cynnwys cyfryngau perthnasol" yn golygu deunyddiau, ar wahân i hysbysebion, sydd wedi'u cynnwys yn unrhyw rai o'r gwasanaethau canlynol sydd ar gael i aelodau o'r cyhoedd mewn rhan o'r Deyrnas Unedig neu'r wlad i gyd--
- (a) gwasanaethau rhaglenni teledu, gwasanaethau teledu ychwanegol neu wasanaethau teledu digidol ychwanegol,
 - (b) gwasanaethau rhaglenni ar alwad, neu
 - (c) gwasanaethau eraill sy'n cael eu darparu drwy'r rhyngwrwd pan fydd rhywun sydd â rheolaeth olygyddol dros y deunyddiau sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth;
- ac mae ffilm yn "ffilm trydydd parti" os nad oedd C4C wedi cymryd rhan yn y gwaith o'i gwneud.
- (7) Mae'r gwasanaethau sydd at ddibenion yr adran hon yn cael eu hystyried fel gwasanaethau sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd yn cynnwys unrhyw wasanaeth sydd--
- (a) ar gael i aelodau o'r cyhoedd ei dderbyn (yn ystyr adran 361); neu
 - (b) ar gael i aelodau o'r cyhoedd ei ddefnyddio (yn ystyr adran 368R(4)).

Adran 198C o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003: Bydd OFCOM yn adrodd ar ddyletswyddau cynnwys cyfryngau⁶ C4C

- (1) Ar gyfer pob cyfnod perthnasol, rhaid i OFCOM-
- (a) cynnal adolygiad o'r graddau mae C4C wedi cyflawni ei dyletswyddau o dan adran 198A, a
 - (b) paratoi adroddiad ar y materion y daeth o hyd iddynt yn yr adolygiad.
- (2) Rhaid i OFCOM gyhoeddi pob adroddiad o dan yr adran hon--
- (a) cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl gorffen ei baratoi, a
 - (b) mewn ffordd mae'n ystyried sy'n briodol.

⁶ Cafodd yr adran hon ei chynnwys yn y Ddeddf Cyfathrebiadau drwy adran 23 Ddeddf yr Economi Ddigidol 2010.

- (3) mae “cyfnod perthnasol” yn golygu pob cyfnod sydd wedi'i ddewis gan OFCOM at ddibenion adran 264(1)(b) sy'n dod i ben ar ôl i'r adran hon ddod i rym.